Bitesize

# Personal writing
## Mari a Hari yn Eryri

| | |
|---|---|
| Tegwen | Dan ni'n meddwl mai ei enw ydy Hari Spencer, neu CymroMelyn94. Mae o'n dweud pethau drwg am atyniadau Cymru ar RateWales.<br><br>Dy waith di Mari ydy gwneud yn siŵr mai fo ydy Hari Spencer a'i stopio fo rhag ysgrifennu pethau cas.<br><br>Wyt ti'n deall? |
| Mari | Ydw , dw i'n deall.<br><br>Haia, Mari dw i. Dw i'n ddau ddeg un oed, a dw i'n dod o Ynys Môn. |
| Hari | O, Hari dw i. Dw i'n ddau ddeg tri a dw i'n dod o Grymych. |
| Tegwen | Rwan gofynna iddo fo pam ei fod o yma. |
| Mari | Iawn, wna i ofyn iddo fo rwan.<br><br>Pam wyt ti yma? |
| Hari | Er mwyn cerdded i fyny'r Wyddfa. |
| Mari | A fi. Dw i'n mynd i fyny'r Wyddfa hefyd. |
| Hari | Sori, ydw i'n dy nabod di? |
| Mari | Nac wyt. Mari dw i. Dw i'n hoffi canu, mae'n gas gen i ddŵr oer, fy hoff liw i ydy coch. Dw i'n berson caredig, siaradus, cyfeillgar... |
| Tegwen | Stopia siarad. |
| Mari | Ond, dw i'n dangos diddordeb ynddo fo. |
| Hari | Reit, dw i am fynd nawr. |
| Mari | Awn ni efo'n gilydd ia? |
| Hari | Ym. Byddai'n well gen i fynd fy hun a dweud y gwir. |
| Mari | Beth wyt ti'n hoffi ei wneud yn dy amser hamdden? |


© Copyright 2015

| | |
|---|---|
| Hari | Weithiau dw i'n chwarae pêl-droed. |
| Tegwen | Gofynna iddo fo os ydy o erioed wedi ysgrifennu am rai o atyniadau twristiaeth Cymru? |
| Mari | Wyt ti wedi ysgrifennu am rai o atyniadau twristiaeth Cymru? |
| | Wyt ti wedi ysgrifennu amdanyn nhw ar y we, ar wefannau fel RateWales? |
| Hari | Pwy wyt ti? I bwy wyt ti'n gweithio? |
| Mari | Fy enw i ydy Mari. Dw i'n ddau ddeg un oed a dw i'n dod o Ynys Môn a dw i'n gweithio i 'Dewch i Gymru'. |
| | Beth wna i? |
| Tegwen | Gad iddo fo. Dw i ddim yn meddwl bydd o'n ysgrifennu pethau drwg ar y we eto. |
| | Ha ha ha ha ha ha. |

**Translation**

| | |
|---|---|
| Tegwen | His name is Hari Spencer, or CymroMelyn94. He says bad things about Wales' attractions on RateWales. |
| | Your job Mari is to make sure that he is Hari Spencer and stop him from writing nasty things. |
| | Do you understand? |
| Mari | Yes, I understand. |
| | Haia, I'm Mari. I'm twenty one years old, and I come from Anglesey. |
| Hari | O, I'm Hari. I'm twenty three and I come from Crymych. |
| Tegwen | Now ask him why he's here. |
| Mari | OK, I'll ask him now. |
| | Why are you here? |
| Hari | To walk up Snowdon. |
| Mari | Me too. I'm going to walk up Snowdon too. |


© Copyright 2015

| | |
|---|---|
| Hari | Sorry, do I know you? |
| Mari | No you don't. I'm Mari. I like singing, I hate cold water, my favourite colour is red. I'm a kind, talkative, friendly person... |
| Tegwen | Stop talking. |
| Mari | But, I'm showing an interest in him. |
| Hari | Right, I'm going now. |
| Mari | We'll go together shall we? |
| Hari | Erm. I'd rather go by myself to be honest. |
| Mari | What do you like doing in your leisure time? |
| Hari | Sometimes I play football. |
| Tegwen | Ask him if he's ever written about some of Wales' tourist attractions? |
| Mari | Have you ever written about some of Wales' tourist attractions?<br><br>Have you written about them on the internet, on websites like RateWales? |
| Hari | Who are you? Who do you work for? |
| Mari | My name is Mari. I'm twenty one years old and I come from Anglesey and I work for 'Come to Wales'.<br><br>What shall I do? |
| Tegwen | Let him be. I don't think he'll write bad things on the internet again.<br><br>Ha ha ha ha ha ha. |


© Copyright 2015